Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Adran 16 Atodiad: Diddymiad Cyfarwyddyd 2017

Llawlyfr
Rheoli
Datblygu

OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG51664, ISBN digidol 978-1-83715-686-3

# CYFARWYDDYD CYNLLUNIO GWLAD A THREF (RHEOLI HYSBYSEBION) (DILEU) (CYMRU) 2017

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir i'r Ysgrifennydd Gwladol gan reoliadau 22 a 26 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992(**1**) ac sydd bellach yn arferadwy ganddynt hwy(**2**), yn rhoi'r cyfarwyddyd a ganlyn.

1. Yn y cyfarwyddyd hwn—

   mae i "apêl ynghylch caniatâd i arddangos hysbyseb" ("*advertisement consent appeal*") yr ystyr a roddir iddo gan reoliad 3(1) o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Ceisiadau Atgyfeiriedig a Gweithdrefn Apelau) (Cymru) 2017;

   mae i "awdurdod cynllunio lleol" yr ystyr a roddir i "local planning authority" gan reoliad 2(2A) o Reoliadau 1992;

   ystyr "Rheoliadau 1992" ("*the 1992 Regulations*") yw Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992.

2. Daw'r cyfarwyddyd hwn i rym ar 5 Mai 2017 ac mae'n gymwys i bob awdurdod cynllunio lleol yng Nghymru.

3. Mae Cyfarwyddyd Cynllunio Gwlad a Thref (Rheoli Hysbysebion) 1992 wedi ei ddileu ac eithrio y bydd yn parhau i fod yn gymwys pan fo apêl, ac eithrio apêl ynghylch caniatâd i arddangos hysbyseb, yn cael ei wneud i Weinidogion Cymru o dan reoliad 15(1) neu (3) o Reoliadau 1992 mewn perthynas â—

   (a) cais am ganiatâd datganedig a wnaed cyn 5 Mai 2017;

   (b) hysbysiad peidio â pharhau a gyflwynwyd gan awdurdod cynllunio lleol o dan reoliad 8 o Reoliadau 1992 cyn 5 Mai 2017.

Un o Weinidogion Cymru

Dyddiad

(**1**) O.S. 1992/666.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthyglau 2 a 3 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) ac Atodlen 1 iddo. Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Weinidogion Cymru gan adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi.